Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cyngor Cyfreithiol

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026



Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cyngor Cyfreithiol

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd wrth iddynt gynorthwyo eu hetholwyr. Ni fwriedir iddi gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.

Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**



# Cynnwys

**Cyflwyniad:** 7

**1. Cael hyd i gyfreithiwr** 8

**2. Cymorth cyfreithiol** 9

**3. Pro bono** 10

Advocate 10

Asylum Support Appeals Project 10

Clinig Cyngor Cyfreithiol Prifysgol Bangor (BULAC) 10

Free Representation Unit 11

LawWorks 11

Clinig y Gyfraith Gogledd a Chanolbarth Cymru 12

Canolfan y Gyfraith SpeakEasy 12

Clinig Cyngor Cyfreithiol Prifysgol De Cymru 12

Clinig y Gyfraith Abertawe 13

**4. Hunan-gynrychiolaeth** 14

Advicenow 14

Employment Tribunal Litigants in Person Support Scheme (ELIPS) 14

RCJ Advice 14

Support Through Court 14

**5. Ffynonellau eraill o gyngor** 15

Cyngor ar Bopeth 15

Yswiriant ac Aelodaeth 15

Undebau Llafur 15

**6. Ffynonellau penodol o gyngor** 16

ACAS (Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu) 16

Action Against Medical Accidents 16

Advicelocal 16

Advicenow 17

Age Cymru ..... 17
Asylum Justice ..... 17
Coram Children's Legal Centre ..... 17
Cymorth Cynllunio Cymru ..... 18
Disability Law Service ..... 18
Family Rights Group ..... 19
Finding Legal Options for Women Survivors ..... 19
Gingerbread ..... 20
Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb ..... 20
Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol ..... 20
Inquest ..... 21
Maternity Action ..... 21
Mind Cymru ..... 22
National Debtline ..... 22
Race Equality First ..... 22
Rights of Women ..... 23
Settled ..... 23
Shelter Cymru ..... 24
Working Families ..... 24

# Cyflwyniad:

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu ac yn cynnwys manylion cyswllt ffynonellau o gyngor cyfreithiol sydd ar gael i etholwyr sy'n ceisio cymorth neu gefnogaeth gydag amrywiaeth o faterion cyfreithiol.

# 1.Cael hyd i gyfreithiwr

Bydd angen cymorth cyfreithiwr preifat arnoch i ymdrin â rhai problemau cyfreithiol. Bydd cyfreithwyr gwahanol yn arbenigo mewn meysydd cyfreithiol gwahanol, megis trosedd, addysg, neu gyfraith teulu, felly mae'n bwysig i chi gael hyd i gyfreithiwr sy'n arbenigo yn y maes priodol.

Mae llawer o gyfreithwyr yn cytuno i beidio â chodi tâl am yr apwyntiad cyntaf.

Cymdeithas y Gyfraith yw'r corff proffesiynol ar gyfer cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cynrychioli cyfreithwyr ac adfocadau o ran mynediad at gyfiawnder a threfn y Gyfraith. Mae gan y Gymdeithas wasanaeth '**Canfod cyfreithiwr**' ar ei gwefan.

**Manylion cyswllt:**
**Ffôn:** 020 7242 1222
**Gwefan:** **lawsociety.org.uk**

# 2.Cymorth cyfreithiol

Gall cymorth cyfreithiol eich helpu i dalu am gyngor cyfreithiol, cyfryngu neu gynrychiolaeth mewn llys os na allwch dalu'r costau. Gallai hyn gynnwys help gyda phroblemau'n ymwneud â thai, dyled, gwaith, teulu, budd-daliadau neu addysg.

Gallwch gael cymorth cyfreithiol hefyd os cewch eich cyhuddo o droseddu. Dylai cyfreithiwr neu fargyfreithiwr person a gyhuddwyd allu cadarnhau a allai gael cymorth cyfreithiol troseddol.

Mae cymorth cyfreithiol yn dibynnu ar nifer o bethau, gan gynnwys eich amgylchiadau ariannol (megis faint rydych yn ennill a faint o gynilion sydd gennych), a'r math o gymorth cyfreithiol rydych yn chwilio amdano. Nid yw cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer pob math o broblemau.

Ar wefan **GOV.UK**, gallwch **gyfrifo a ydych yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol** ar gyfer problemau anhroseddol.

Gallwch hefyd chwilio am gynghorwyr cymorth cyfreithiol yma: **find-legal-advice.justice.gov.uk**

# 3.Pro bono

“Pro bono” yw’r term a ddefnyddir i ddisgrifio cymorth cyfreithiol am ddim i’r rhai na allant fforddio talu am gymorth cyfreithiol. Os nad ydych yn gymwys i gael cyllid cymorth cyfreithiol, mae rhai o’r asiantaethau isod yn gweithio gyda chyfreithwyr pro bono a all eich helpu gyda’ch achos.

## Advocate

Mae **Advocate** yn elusen pro bono bargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr, gyda chymorth Cyngor y Bar. Mae Advocate yn helpu i gael hyd i gymorth cyfreithiol am ddim gan fargyfreithwyr, ym mhob maes o’r gyfraith ar draws pob llys a thribiwnlys yng Nghymru a Lloegr.

**Manylion cyswllt:**
Advocate, International Dispute Resolution Centre, 1 Paternoster Lane, St. Paul’s, London, EC4M 7BQ
**Ffôn:** 020 4518 6141
**E-bost:** **defnyddiwch y ffurflen gyswllt ar-lein**
**Gwefan:** **www.weareadvocate.org.uk**

## Asylum Support Appeals Project

Mae’r **Asylum Support Appeals Project** (ASAP) yn cynnig cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol am ddim i geiswyr lloches, a cheiswyr lloches a wrthodwyd ac sy’n sy’n apelio yn erbyn penderfyniadau’r Swyddfa Gartref i wrthod tai iddynt, neu i dynnu’n ôl eu tai, eu cynhaliaeth ariannol, neu’r naill a’r llall.

**Manylion cyswllt:**
**Ffôn:** 0203 716 0283
**Gwefan:** **www.asaproject.org/**

## Clinig Cyngor Cyfreithiol Prifysgol Bangor (BULAC)

Mae **Clinig Cyngor Cyfreithiol Prifysgol Bangor** (BULAC) yn darparu cyngor cyfreithiol am ddim i aelodau’r cyhoedd (a staff a myfyrwyr). Rhoddir yr holl gyngor gan fyfyrwyr y gyfraith sydd ar eu blwyddyn olaf ym Mhrifysgol Bangor, a hynny dan oruchwyliaeth cyfreithwyr cymwys.

Mae BULAC yn darparu cyngor cyfreithiol ar y rhan fwyaf o feysydd sifil y gyfraith gan gynnwys cyfraith teulu, cyflogaeth, tai, materion eiddo, anafiadau

personol a materion defnyddwyr. Nid yw BULAC yn rhoi cyngor ar gyfraith droseddol, budd- daliadau lles na mewnfudo.

**Manylion cyswllt:**
**Ffôn:** 01248 388411
**Gwefan:** **BULAC@Bangor.ac.uk**

## Free Representation Unit

Mae'r **Free Representation Unit** yn elusen sy'n cynnig cyngor cyfreithiol, paratoi achosion ac eiriolaeth ym myd gwaith, nawdd cymdeithasol, a rhai achosion tribiwnlys ar gyfer iawndal am anafiadau troseddol. Mae'r FRU yn cymryd achosion gan ei hasiantaethau atgyfeirio yn unig, ac ni all sicrhau cynrychiolaeth.

**Manylion cyswllt:**
Free Representation Unit, 10/11 Gray's Inn Square, Gray's Inn, London WC1R 5JD
**Ffôn:** 020 7611 9555
**E-bost:** **admin@thefru.org.uk**
**Gwefan:** **www.thefru.org.uk/**

## LawWorks

Mae LawWorks yn elusen a'i nod yw rhoi cyngor **cyfreithiol am ddim i unigolion** a **grwpiau nid-er-elw** na allant fforddio talu amdano ac na allant hawlio cymorth cyfreithiol. Mae'n cynnig clinigau **cyngor cyfreithiol am ddim ar draws Cymru a Lloegr**, lle y mae cleientiaid fel arfer yn cael rhwng 30 munud ac awr i esbonio mater a byddant yn cael cyngor sylfaenol ar y camau nesaf i'w cymryd. At hynny, mae LawWorks yn cynnal **Free Legal Answers** sy'n rhoi mynediad ar-lein i gyngor cyfreithiol pro bono i unigolion ar incwm isel yng Nghymru a Lloegr.

**Gwefan:** **www.lawworks.org.uk**

## Clinig y Gyfraith Gogledd a Chanolbarth Cymru

Cyngor ar Bopeth Ynys Môn sy'n arwain Clinig y Gyfraith Gogledd a Chanolbarth Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych a Phrifysgol Bangor. Gan ganolbwyntio ar materion teuluol, gofal yn y gymuned a chyfraith cyflogaeth, mae myfyrwyr y gyfraith o Brifysgol Bangor yn helpu i roi cyngor cyfreithiol i gleientiaid, o dan oruchwyliaeth arbenigwyr o gwmnïau cyfreithiol.

**Manylion cyswllt:**
**Ffôn:** 0140 776 2278
**E-bost:** lipsnorthwales@gmail.com

## Canolfan y Gyfraith SpeakEasy

Mae **Canolfan y Gyfraith SpeakEasy**, sy'n rhan o'r **Rhwydwaith Canolfannau nau'r Gyfraith**, yn cynnig cyngor cyfreithiol am ddim a diduedd ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg, yn arbenigo mewn budd-daliadau lles, dyled, cyfraith tai a chyflogaeth.

Mae'r Ganolfan yn cynnig apwyntiadau a chyngor wyneb yn wyneb a chymorth dros y ffôn a thrwy e-bost.

**Manylion cyswllt:**
166 Heol Richmond, Caerdydd, CF24 3BX
**Ffôn:** 029 2045 3111
**E-bost:** info@speakeasy.cymru
**Gwefan:** www.speakeasy.cymru/cym

## Clinig Cyngor Cyfreithiol Prifysgol De Cymru

Mae **Clinig Cyngor Cyfreithiol Prifysgol De Cymru** yn cynnig apwyntiadau am ddim i'r cyhoedd lle bydd myfyrwyr yn cyfweld â chleientiaid gan asesu'r sefyllfa (o dan oruchwyliaeth cyfreithiwr cymwys), ac yna'n llunio cyngor cyfreithiol mewn sawl maes megis cyflogaeth, tai, dyled, materion teuluol a materion yn ymwneud â chontractau.

Mae'n rhaid trefnu apwyntiad i ddefnyddio'r gwasanaeth ac ni ddarperir cyngor cyfreithiol dros y ffôn na thros e-bost.

Rhaid i'r rheini sydd am gael cyngor cyfreithiol lenwi **ffurflen ymholiad y Clinig Cyngor Cyfreithiol** yn gyntaf.

## Clinig y Gyfraith Abertawe

Mae **Clinig y Gyfraith ym Mhrifysgol Abertawe** yn cynnig cyngor cychwynnol am ddim am broblemau cyfreithiol ac yn rhoi cyfle i fyfyrwyr weithio ochr yn ochr â chyfreithwyr proffesiynol i roi cyngor i gleientiaid go iawn. Gall Clinig y Gyfraith helpu gydag amrywiaeth o faterion cyfreithiol gan gynnwys anghydfodau rhwng landlordiaid a thenantiaid; materion cyflogaeth; cyngor ar fudd-daliadau a chyngor ar fewnfudo a cheisio lloches.

Gellir trefnu apwyntiadau gyda chynghorwyr sy'n fyfyrwyr yn ystod y tymor. Defnyddir apwyntiadau i gasglu gwybodaeth, cyn anfon llythyr dilynol sy'n rhoi cyngor cyfreithiol.

Rhaid i'r rhai sydd am gael eu hystyried ar gyfer apwyntiad lawrlwytho a chwblhau'r **Ffurflen Gais am Apwyntiad Clinig y Gyfraith** a'i dychwelyd at **lawclinic@ swansea.ac.uk**

# 4.Hunan-gynrychiolaeth

Ar gyfer rhai materion cyfreithiol, mae'n bosibl i chi gynrychioli eich hun yn y llys; gelwir rhywun sy'n gwneud hyn yn "ymgyfreithiwr drosto'i hun". Ceir rhagor o wybodaeth am hyn ar dudalen GOV.UK. **Cynrychioli'ch hun yn y llys**.

## Advicenow

Mae **Advicenow** yn wefan annibynnol, nid-er-elw, a gynhelir gan yr elusen Law for Life: the Foundation for Public Legal Education sy'n rhoi gwybodaeth am hawliau a'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn ogystal â chyngor i ymgyfreithwyr yn bersonol.

**Gwefan:** **www.advicenow.org.uk**

## Employment Tribunal Litigants in Person Support Scheme (ELIPS)

Mae **ELIPS** yn darparu cymorth i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain sydd heb gynrychiolaeth sy'n ymwneud â hawliad byw yn un o'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a ganlyn: Canol Llundain, Caerdydd, Bryste, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Newcastle, Leeds a Manceinion. Mae clinigau'n gweithredu ddwywaith y mis ar ddydd Iau dros Zoom.

**Gwefan:** **www.elaweb.org.uk/pro-bono/elips-litigants**

## RCJ Advice

Mae **RCJ Advice** yn rhoi cyngor cyfreithiol am ddim i bobl ag achos llys yn y llysoedd sifil a theulu yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cynnig ei holl wasanaethau drwy e-bost, ar y ffôn ac ar Zoom.

**Gwefan:** **www.rcjadvice.org.uk**

## Support Through Court

Mae **Support Through Court** yn darparu cymorth ymarferol ac emosiynol am ddim i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain. Mae gan yr elusen **swyddfeydd lleol** ar draws Cymru a Lloegr ac mae hefyd yn cynnig **gwasanaeth llinell gymorth genedlaethol**.

**Gwefan:** **www.supportthroughcourt.org**

# 5.Ffynonellau eraill o gyngor

## Cyngor ar Bopeth

Gall **Cyngor ar Bopeth** helpu pobl i ddatrys problemau'n ymwneud â dyled, budd- daliadau, tai, y gyfraith, gwahaniaethu, mewnfudo, a materion defnyddwyr ymysg pethau eraill. Mae'n rhoi cyngor am ddim wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy'r e-bost. Mae'r rhan fwyaf o'i swyddfeydd yn cynnig ymweld â chi yn eich cartref ac mae rhai'n rhoi cyngor dros e-bost. Mae adran ar ei wefan lle gallwch gael hyd i **gyfeiriad a manylion cyswllt eich swyddfa leol**.

Mae gwefan Cyngor ar Bopeth yn rhoi **cyngor ar ystod eang o bynciau**.

**Manylion cyswllt:**
**Ffôn:** Advicelink: Gwasanaeth ffôn cenedlaethol Cyngor ar Bopeth: 03444 77 20 20
**Gwefan:** **www.citizensadvice.org.uk/cymraeg**

Mae rhagor o fanylion cyswllt ar gyfer dyled, Credyd Cynhwysol a materion defnyddwyr ar gael ar y tudalennau **Cysylltu â Ni**.

## Yswiriant ac Aelodaeth

Mae llawer o bolisïau yswiriant yn cynnig sicrwydd yswiriant rhag treuliau cyfreithiol fel rhywbeth ychwanegol a all gwmpasu ystod eang o anghydfodau. Mae tanysgrifwyr i gylchgronau megis Which hefyd yn gallu defnyddio llinellau cymorth cyngor cyfreithiol.

## Undebau Llafur

Mae undebau llafur yn aml yn cynnig cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol am ddim i'w haelodau. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn gyfyngedig i faterion sy'n ymwneud â gwaith. Yn y lle cyntaf, cysylltwch â'ch cynrychiolydd lleol i gael rhagor o wybodaeth. Fel arall, mae gan rai undebau llafur linellau cymorth y gallech eu ffonio am gyngor.

# 6.Ffynonellau penodol o gyngor

Hefyd, mae llawer o elusennau sy'n cynnig cyngor cyfreithiol i grwpiau penodol neu i'r rhai sydd â phroblemau penodol.

## ACAS (Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu)

Mae **Acas** yn darparu gwybodaeth a chyngor diduedd am ddim i gyflogwyr a gweithwyr ynghylch pob agwedd ar gysylltiadau yn y gweithle a chyfraith cyflogaeth.

Mae adran **gyngor** ar ei wefan sy'n cynnig llythyrau templed a gwybodaeth sy'n cwmpasu ystod eang o faterion cyflogaeth, gan gynnwys dileu swydd, trefniadau gweithio hyblyg a chontractau cyflogaeth.

**Manylion cyswllt:**
**Ffôn:** 0300 123 1100. (Llun-Gwener 8am-6pm)
**Gwefan:** **www.acas.org.uk/**

## Action Against Medical Accidents

**Action Against Medical Accidents (AvMA)** yw'r elusen genedlaethol ar gyfer diogelwch a chyfiawnder cleifion. Ar wefan Gweithredu yn Erbyn Damweiniau Meddygol mae adran **cymorth a chyngor** sy'n cynnig opsiynau os ydych chi neu aelod o'ch teulu wedi dioddef esgeulustod meddygol. Mae ei chyngor yn rhad ac am ddim ac yn gyfrinachol.

**Manylion cyswllt:**
**Ffôn:** 0845 123 2352 (Llun-Gwener 10am-3.30pm)
**Gwefan:** **www.avma.org.uk**

## Advicelocal

Mae **Advicelocal** yn wasanaeth a all gynorthwyo gyda phroblem cyfraith lles cymdeithasol – er enghraifft mewn perthynas â budd-daliadau lles a chredydau treth; treth y cyngor; cyngor ar ddyledion ac arian; tai a digartrefedd; materion cyflogaeth a gwaith; anabledd a gofal cymdeithasol; neu loches a mewnfudo.

I ddefnyddio Advicelocal rhowch god post a dewiswch bwnc i gael cyngor yn ei gylch i ddod o hyd i lincs i wybodaeth wedi'i theilwra ar gyfer eich ardal, gan gynnwys manylion sefydliadau cynghori annibynnol, rhad am ddim a all gynnig gwybodaeth a chefnogaeth.

**Gwefan:** **www.advicelocal.uk/**

## Advicenow

Mae **Advicenow** yn wefan annibynnol, nid-er-elw, sy'n anelu at ddarparu gwybodaeth gywir, ymarferol am hawliau a'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Mae'r wefan yn cynnwys **canllawiau** a chyngor a chyfeiriadau at amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys **budd-daliadau**, **cyflogaeth**, **materion teuluol a phersonol**, **tai a digartrefedd**, **a mewnfudo a chenedligrwydd**.

**Gwefan:** **www.advicenow.org.uk**

## Age Cymru

Mae **Age Cymru** yn elusen sy'n cynnig cyngor a gwybodaeth am ystod o faterion sy'n berthnasol i bobl hŷn, gan gynnwys **budd-daliadau a hawliau, cyngor pensiynau** a **dod o hyd i ofal a chymorth gartref**.

**Manylion cyswllt:**
Age Cymru, Llawr Gwaelod, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd, CF24 5TD
**Ffôn:** 0300 303 44 98 (Llun - Gwener 9am-4pm)
**E-bost:** **advice@agecymru.org.uk**
**Gwefan:** **www.ageuk.org.uk/cymru**

## Asylum Justice

Mae **Asylum Justice** yn sefydliad elusennol yng Nghymru sy'n cynnig cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol am ddim i geiswyr lloches, ffoaduriaid cydnabyddedig a mudwyr eraill sy'n agored i niwed.

**Manylion cyswllt:**
**Ffôn:** 029 2049 9421
**E-bost:** **Ffurflen ymholiad**
**Gwefan:** **www.asylumjustice.org.uk**

## Coram Children's Legal Centre

Mae **Coram Children's Legal Centre** yn elusen gofrestredig sy'n hyrwyddo hawliau plant ar draws y DU ac yn rhyngwladol, sy'n cynnig cynrychiolaeth gyfreithiol, gwybodaeth a chyngor am ddim i blant, pobl ifanc, a'u teuluoedd a'u gofalwyr ledled y DU. Mae'n cynnig cyngor a thaflenni ffeithiau ar **amrywiaeth o faterion**, gan gynnwys **mewnfudo, lloches a chenedligrwydd, addysg**, a **gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymunedol.**

**Manylion cyswllt:**
Coram Children's Legal Centre, Wellington House, 4th Floor, 90-92 Butt Road, Colchester, Essex CO3 3DA
**E-bost:** **mailto:info@coramclc.org.uk**
**Gwefan:** **www.childrenslegalcentre.com**

## Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad annibynnol, elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru** sy'n helpu unigolion a chymunedau ledled Cymru i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio.

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn darparu gwybodaeth am bolisïau cynllunio a cheisiadau cynllunio yng Nghymru ar ei dudalen **Cyngor Cynllunio** a **Llinell Gymorth am ddim** i gynorthwyo aelodau o'r cyhoedd a grwpiau cymunedol cymwys y mae angen help arnynt gyda mater cynllunio.

**Manylion cyswllt:**
Cymorth Cynllunio Cymru, 12 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ
**Ffôn:** 02920 625 004
**E-bost:** **helpline@planningaidwales.org.uk** neu defnyddiwch y **ffurflen gyswllt**
**Gwefan:** **https://planningaidwales.org.uk/?lang=cy**

## Disability Law Service

Mae'r **Disability Law Service** yn rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl anabl a'u gofalwyr.

Gall roi cyngor ynghylch y meysydd a ganlyn:

- Cyflogaeth a gwahaniaethu yn y Gwaith
- Budd-daliadau lles
- Tai
- Gofal cymunedol
- Cyngor cyfreithiol i bobl sydd â Sglerosis Ymledol
- Cyngor ar fudd-daliadau i bobl sydd â Sglerosis Ymledol
- Gwahaniaethu, a

- Cyfraith gyhoeddus

**Manylion cyswllt:**
Disability Law Service, The Foundry, 17 Oval Way, London, SE11 5RR
**Ffôn:** 020 7791 9800
**E-bost:** Mae manylion cyswllt e-bost pwnc penodol ar gael ar y dudalen sy'n ymwneud â **chyngor dros y ffôn neu'n ysgrifenedig**

**Llinell Cyngor Cyfreithiol ar gyfer Sglerosis** Ymledol: Mae Llinell Gyfreithiol Sglerosis Ymledol y Gwasanaeth Cyfreithiol i Bobl Anabl yn cynnig cyngor cyfreithiol cyfrinachol yn rhad ac am ddim yng Nghymru a Lloegr i bobl y mae MS wedi effeithio arnynt. Mae'r cyngor yn cwmpasu cyflogaeth, gwahaniaethu ar sail anabledd (mewn perthynas â darparu gwasanaethau a swyddogaethau cyhoeddus) a chyfraith gofal cymunedol. Mae manylion cyswllt ar gael ar y dudalen **Llinell Cyngor Cyfreithiol ar gyfer Sglerosis Ymledol**.

**Gwefan:** **www.dls.org.uk**

## Family Rights Group

Mae'r **Family Rights Group** yn elusen sy'n rhoi cyngor i rieni, mam-guod a thad- cuod, perthnasau a ffrindiau am eu hawliau a'u hopsiynau pan fydd gweithwyr cymdeithasol neu lysoedd yn gwneud penderfyniadau am les eu plant. Mae gwefan Grŵp Hawliau Teulu yn rhoi **cyngor, awgrymiadau a llythyrau templed**.

**Manylion cyswllt:**
Family Rights Group, 101 Pentonville Road, London, N1 9LG
Ffôn: 0808 801 0366 (Llun-Gwener 9:30am-3pm)
**E-bost:** **https://frg.org.uk/advice-form/**
**Gwefan:** **www.frg.org.uk/**

## Finding Legal Options for Women Survivors

Mae **Finding Legal Options for Women Survivors (FLOWS)** yn wasanaeth cymorth cyfreithiol, wedi'i gynllunio i helpu i amddiffyn menywod rhag cam-drin domestig. Mae gan FLOWS **fap gwasanaethau lleol** sy'n caniatáu i unigolyn chwilio am gymorth sydd ar gael yn lleol.

**Manylion cyswllt:**
**Ffôn:** 0203 745 7707
**E-bost:** **flows@rcjadvice.org.uk**
**Gwefan:** **www.flows.org.uk**

## Gingerbread

Elusen genedlaethol yw **Gingerbread** ac mae'n gweithio gyda theuluoedd un rhiant i gynnig cyngor, cefnogaeth ymarferol ac i ymgyrchu ar ran teuluoedd un rhiant.

Mae'r elusen yn cynnig amrywiaeth o **wasanaethau cyngor a chymorth** ar gyfer rhieni sengl. Mae'r rhain yn cynnwys **tudalennau gwybodaeth**, **fforwm ar-lein a grwpiau lleol**.

**Manylion cyswllt:**
Gingerbread, 82 Tanner Street, London, SE1 3GN
**Gwefan:** **gingerbread.org.uk/**

## Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb

Mae'r **Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb** yn cynnig cyngor a chymorth i unigolion ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r Gwasanaeth yn helpu cleientiaid i ddatrys materion heb orfod dechrau achos cyfreithiol.

**Manylion cyswllt:**
**Ffôn:** 0808 808 0082
**E-bost:** **Ffurflen ymholiad**
**Gwefan:** **eass-ws.custhelp.com/**

## Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol

**Gweithredu yn Erbyn Damweiniau Meddygol** yw'r elusen genedlaethol ar gyfer diogelwch a chyfiawnder cleifion. Ar wefan Gweithredu yn Erbyn Damweiniau Meddygol mae adran **cymorth a chyngor** sy'n cynnig opsiynau os ydych chi neu aelod o'ch teulu wedi dioddef esgeulustod meddygol. Mae ei chyngor yn rhad ac am ddim ac yn gyfrinachol.

**Manylion cyswllt:**
**Ffôn:** 0845 123 2352 (Llun-Gwener 10am-3.30pm)
**Gwefan:** **eass-ws.custhelp.com/**

## Inquest

Mae **Inquest** yn elusen gofrestredig sy'n cynnig cyngor a chymorth annibynnol, yn rhad ac am ddim i bobl yn dilyn marwolaeth yng ngofal y wladwriaeth, yn y ddalfa neu dan gadwad yng Nghymru neu Loegr. Mae hefyd yn cynnig cymorth i deuluoedd drwy gydol proses y cwest.

Mae gwefan Inquest yn rhoi mynediad i **lawlyfr Inquest**, **pecyn cymorth sgiliau a chymorth Inquest** a **cwestiynau cyffredin**.

**Manylion cyswllt:**
Inquest, 3rd Floor, 89-93 Fonthill Road, London, N4 3JH
**Ffôn:** 020 7263 1111
**E-bost:** **inquest@inquest.org.uk**
**Gwefan:** **www.inquest.org.uk**

## Maternity Action

Elusen yw **Maternity Action** a'i nod yw hyrwyddo, diogelu a gwella yr hawl sydd gan bob menyw feichiog, pob mam newydd a'u teuluoedd i gyflogaeth, nawdd cymdeithasol a gofal iechyd.

Mae'r elusen yn darparu **gwybodaeth ar-lein am ddim** a chyngor dros y ffôn ar **hawliau mamolaeth (gwaith a budd-daliadau)**; **cyngor ar daliadau a godir gan y GIG am ofal mamolaeth** a **gwasanaeth hawliau menywod mudol – hyfforddiant a chefnogaeth**.

**Manylion cyswllt:**
Unit 4, Wells House, 5-7 Wells Terrace, London N4 3JU

**Llinellau cyngor:**

**Llinell gyngor hawliau mamolaeth:**
**Ffôn:** 0808 802 0029
**E-bost:** Using **online contact form**

**Cyngor ar daliadau a godir gan y GIG am ofal mamolaeth:**
**E-bost:** Defnyddiwch y **ffurflen gyswllt ar-lein**

**Gwasanaeth hawliau menywod mudol – hyfforddiant a chefnogaeth:**
**Ffôn:** 020 7251 6189 (Tues-Thurs 10am-12pm and 2–4pm)
**E-bost:** **migrantwomensrights@maternityaction.org.uk**

**Gwefan:** **maternityaction.org.uk**

## Mind Cymru

**Mind Cymru** yw cangen Cymru o **Mind**, elusen gofrestredig sy'n rhoi cyngor a chymorth i bobl â phroblem iechyd meddwl.

Mae gwefan Mind yn rhoi cyngor cyffredinol ar **hawliau cyfreithiol** sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, gan gynnwys anfon rhywun i ysbyty meddwl, triniaeth mewn ysbyty a rhyddhau rhywun o ysbyty; hawliau gwahaniaethu a chanllawiau deddfwriaeth.

Mae **llinell gyfreithiol** Mind yn rhoi gwybodaeth gyfreithiol a chyngor cyffredinol am gyfraith sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. Manylion cyswllt:

**Manylion cyswllt:**
Mind Legal line, PO Box 75225, London E15 9FS
**Ffôn:** 0300 466 6463
**E-bost:** **legal@mind.org.uk**
**Gwefan:** **www.mind.org.uk/cy/mind-cymru-cyngor-a-gwybodaeth-iechyd-meddwl/**

## National Debtline

Mae'r **National Debtline** yn elusen sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth annibynnol yn rhad ac am ddim dros y ffôn ac ar-lein am broblemau'n ymwneud â dyled.

Mae gwefan Llinell Ddyled Genedlaethol hefyd yn cynnig **llyfrgell taflenni ffeithiau** a **llyfrgell llythyrau enghreifftiol**.

**Manylion cyswllt:**
**Ffôn:** 0808 808 4000
**Gwe-sgwrs:** **Gwe-sgwrs**
**Gwefan:** **nationaldebtline.org/**

## Race Equality First

Mae **Race Equality First** yn cynnig cymorth a chyngor i bobl sy'n wynebu gwahaniaethu, aflonyddu, troseddau casineb ac anfantais. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys **gwasanaeth gwaith achos gwahaniaethu** sy'n cynorthwyo unigolion sydd wedi dioddef gwahaniaethu oherwydd nodweddion gwarchodedig sydd ganddynt o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac sy'n cynnal eiriolaeth i ddioddefwyr **troseddau casineb**.

**Manylion cyswllt:**
Race Equality First, Llawr 1af Gorllewin, 113-116 Stryd Bute, Caerdydd CF10 5EQ
Ffôn: 02920 486207
**E-bost:** **info@raceequalityfirst.org.uk** neu defnyddiwch y **ffurflen ymholiadau e-bost**
**Gwefan:** **raceequalityfirst.org/**

## Rights of Women

Mae **Rights of Women** yn elusen sy'n cynnig cyngor cyfreithiol cyfrinachol am ddim i fenywod gan gyfreithwragedd a bargyfreithwragedd arbenigol.

Mae'r wefan yn cynnwys canllawiau a llawlyfrau cyfreithiol **mewn meysydd gwahanol o'r gyfraith**.

**Manylion cyswllt:**

**Llinellau cyngor:**

**Cyngor cyfraith droseddol:**
**Ffôn:** 020 7251 8887

**Cyngor Cyfraith Teulu:**
**Ffôn:** 020 7251 6577

**Cyngor ar fewnfudo a chyfraith lloches:**
Ffôn: 020 7490 7689

**Aflonyddu rhywiol yn y Gwaith:**
Ffôn: 020 7490 0152

**Gwefan:** **rightsofwomen.org.uk**

## Settled

Mae **Settled** yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU, gan gynnwys pobl sy'n hwyr yn gwneud cais i Gynllun Preswylio Sefydlog yr UE (neu EUSS), neu'r rheini y mae eu cais wedi cael ei wrthod. Mae'r elusen, hefyd, yn helpu pan fydd pobl yn ei chael hi'n anodd profi'r hyn yw eu statws mewnfudo, neu hawliau mynediad a gwasanaethau.

At hynny, mae Settled wedi rhoi cyngor ar gynlluniau fisa Wcráin. Mae'r gwasanaeth hwn i Wcráin yn cwmpasu hawliau mewnfudo a hawliau ehangach ynghylch tai, addysg, ac ati.

**Manylion cyswllt:**
R1.3 Riverside House, Newport Market, Upper Dock Street, Newport, NP20 1DD
**Ffôn:** 0330 223 5336
**E-bost:**

- Defnyddiwch y **ffurflen hunangyfeirio**
- Os ydych chi'n byw yng Nghymru a hoffech chi gael cymorth i wneud cais am statws preswylydd cyn-sefydlog neu statws preswylydd sefydlog, anfonwch neges e-bost **ApplyEUSSWales@settled.org.uk**
- For advice on Ukrainian visa schemes, please email **ukraineadvice@settled. org.uk**

**Gwefan:** **www.settled.org.uk/**

## Shelter Cymru

Arbenigedd **Shelter Cymru** yw darparu gwybodaeth a gwasanaeth eirioli i bobl yng Nghymru sydd mewn angen o ran tai. Mae Shelter Cymru yn cynnal **cymorthfeydd cyngor tai lleol ar draws Cymru**. Sesiynau galw heibio yw rhai o'r rhain, ond mae angen trefnu apwyntiad ar gyfer eraill.

Mae gwefan Shelter hefyd yn cynnig **cyngor ar-lein** ar ystod o bynciau'n ymwneud â thai, gan gynnwys **digartrefedd**, **troi allan** ac **adfeddu morgeisi**.

**Manylion cyswllt:**
**Ffôn:** Helpline: 08000 495 495
**E-bost:** **sheltercymru.org.uk/get-advice/webchat/**
**Gwefan:** **sheltercymru.org.uk/**

## Working Families

Elusen genedlaethol yn y DU ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n gweithio yw **Working Families**. Ei chenhadaeth yw dileu'r rhwystrau y mae pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu yn eu hwynebu yn y gweithle.

Mae'r elusen yn darparu **cyngor cyfreithiol am ddim** i rieni a gofalwyr ar **eu hawliau yn y gwaith** ac amrywiaeth o bynciau sy'n effeithio ar rieni a gofalwyr yn y gwaith, gan gynnwys **hawliau beichiogrwydd a mamolaeth**; **gweithio hyblyg** a **chymorth gofal plant**.

**Manylion cyswllt:**
Working Families, c/o Buzzacott LLP, 130 Wood Street, London EC2V 6DL

**Telephone:** 0300 012 0312
**Ffôn:** Ffurflen gyswllt ar-lein
**Gwefan:** workingfamilies.org.uk